

CRONFA BENSIWN GWYNEDD

COFRESTR RISG: Mawrth 2023

Matrics Asesu Risg					
Tebygolrwydd	5	10	15	20	25
	4	8	12	16	20
	3	6	9	12	15
	2	4	6	8	10
	1	2	3	4	5
	Effaith				

Asesu'r Effaith				
		Ariannol	Enw da	Rhanddeiliaid / Cwsmeriaid
1	Bach iawn	< £35k	Colled fach iawn a byrhoedlog o ymddiried y cyhoedd.	Effaith leiaf bosib i randaliadau a chwsmeriaid.
2	Bach	£35k - £300k	Colli ychydig o ymddiried gyda ddim effaith barhaol. Ychydig o gyhoeddusrwydd gwael.	Effaith bychan i randaliadau neu gwsmeriaid ac anfodlonrwydd cwsmeriaid. Tarfu cyfyngedig ar wasanaeth.
3	Cymedrol	£300k - £3m	Colled gymedrol mewn ymddiried sy'n derbyn cyhoeddusrwydd andwyol sylweddol yn lleol heb unrhyw effaith barhaol.	Dim effaith barhaol. Tarfu cymedrol i randaliadau neu gwsmeriaid ac anfodlonrwydd cwsmeriaid. Tarfu cymedrol ar wasanaeth.
4	Mawr	£3m - £30m	Colled sylweddol o ymddiried ac sy'n derbyn sylw yn y cyfryngau lleol gyda photensial o gael effaith barhaol.	Amhariad sylweddol i'r gwasanaeth a gwrthwynebiad gan randaliadau a / neu gwsmeriaid. Bygythiad o gamau cyfreithiol.
5	Trychinebus	> £30m	Colled sylweddol o ymddiried ac sy'n derbyn sylw yn y cyfryngau cenedlaethol gyda photensial o gael effaith barhaol.	Amhariad mawr i'r gwasanaeth a gwrthwynebiad sylweddol gan randaliadau a / neu gwsmeriaid. Camau cyfreithiol. Cof hirdymor cyhoeddus.

Asesu Tebygolrwydd			
		Disgrifiad o'r tebygolrwydd	Tebygolrwydd rhifol
1	Prin	Yn ôl pob tebygolrwydd ni fydd hyn digwydd / ailddigwydd.	O dan 1%
2	Annhebygol	Dim yn disgwyl iddo ddigwydd / ddigwydd eto, ond mae'n bosib iddo ddigwydd.	1% - o dan 5%
3	Posibl	Allai ddigwydd neu ddigwydd eto o bryd i'w gilydd.	5% - o dan 20%
4	Tebygol	Mae'n debyg y bydd yn digwydd / ddigwydd eto, ond nid yw'n fater neu amgylchiadau parhaus.	20% - o dan 50%
5	Tebygol iawn	Bydd yn digwydd / digwydd eto heb amheuaeth, o bosib yn aml. Mae'n brosiect sy'n fwy tebygol o fethu na llwyddo.	Dros 50%

Rhif risg	Disgrifiad o'r Risg ac Effaith Bosibl	Risg Cynhenid			Rheolaethau Lliniaru	Risg Cyfredol			Perchennog Risg	Cynlluniau Ychwanegol	Amserlen
		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr Gyfunol		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr Gyfunol			
1. Llywodraethu											
1.1	<p>Nid oes gan yr Awdurdod Gweinyddu trefniadau llywodraethu priodol mewn grym gan gynnwys y gofyniad ar gyfer Bwrdd Pensiwn, a gall hyn arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> Diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth neu arferion gorau. Anallu i bennu polisi, gwneud penderfyniadau a / neu ddarparu gwasanaeth. Risg i enw da. 	4	3	12	<p>Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd (CBG) Ddatganiad Polisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfriad Llywodraethu fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau CPLIL 2008.</p> <p>Mae'r ddau ddatganiad yn cael eu hadolygu a'u diweddarau pan fo angen. Ymgynghorir gyda chyflogwyr y Cynllun pan fydd newidiadau yn cael eu cynnig er mwyn sicrhau bod y polisi yn dal yn briodol.</p> <p>Mae'r Datganiad hwn ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd: www.cronfabensiwnwynedd.cymru</p> <p>Mae Pwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd yn cyflawni'r dyletswyddau'r ymddiriedolwr/ Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn.</p>	3	1	3	<p>Pennaeth Cyllid</p> <p>Rheolwr Buddsoddi</p> <p>Rheolwr Pensiynau</p>		

					<p>Mae Bwrdd Pensiwn Gwynedd wedi ei sefydlu yn unol a Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 ac yn cyflawni'r rôl craffu yn effeithiol.</p> <p>Mae cymorth a hyfforddiant yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod gan aelodau'r Pwyllgor ac aelodaeth'r Bwrdd y wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni eu rôl.</p> <p>Mae trefniadau rheolaethol addas yn golygu nad oes trosiant rhu uchel yn aelodaeth y Pwyllgor na'r Bwrdd.</p>						
1.2	Methiant i weithredu gydag integriti a bod yn atebol i randdeiliad oherwydd gwrthdaro buddion ayyb.	2	2	4	<p>Mae aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau cyfreithiol.</p> <p>Mae holl aelodau'r Pwyllgor a Bwrdd yn datgan unrhyw wrthdaro a gwrthdaro posibl ar ddechrau bob cyfarfod.</p>	1	2	2	<p>Pwyllgor Pensiynau</p> <p>Bwrdd Pensiwn</p> <p>Pennaeth Cyllid</p>		
1.3	<p>Nid yw'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol sydd yn arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth neu arferion gorau. • Anallu i bennu polisi, gwneud penderfyniadau a / neu ddarparu gwasanaeth. • Risg i enw da. 	4	3	12	<p>Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Wybodaeth a Sgiliau.</p> <p>Mae rhaglen anwytho ar gael ar gyfer aelodau newydd o'r Pwyllgor a'r Bwrdd. Mae aelodau newydd y Pwyllgor a'r Bwrdd yn cwblhau Cwrs Hanfodion CPLIL.</p> <p>Mae gan y Gronfa bolisi Sgiliau a Gwybodaeth, ac mae cynllun hyfforddiant blynyddol yn cael ei fabwysiadu gyda hyfforddiant perthnasol yn cael ei cynnig i aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r Bwrdd yn barhaus.</p> <p>Mae'r Gronfa yn tanysgrifio i gyrrff perthnasol (e.e LAPFF) ac yn anfon cynrychiolwyr i gynadleddau perthnasol.</p>	3	2	6	<p>Rheolwr Buddsoddi</p> <p>Rheolwr Pensiynau</p>		

					Mae aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd yn cael gwybod am ac yn cadw at y Datganiad Llywodraethu a Chydymffurfio, ac yn cael eu hannog i nodi eu gofynion hyfforddi.					
2. Cyllid a Buddsoddiadau										
2.1	Aelodau'r Pwyllgor a'r Swyddogion Buddsoddi yn gwneud penderfyniadau amhriodol o ganlyniad i wybodaeth annigonol o farchnadoedd a buddsoddi a chyingor actiwariaid annigonol sy'n arwain at: <ul style="list-style-type: none"> • Perfformiad gwael y Gronfa. • Colled ariannol. • Cyfraniadau cyflogwr uwch. 	5	3	15	<p>Mae Strategaeth Buddsoddi'r Gronfa wedi ei osod yn unol â rheoliadau buddsoddi Pensiwn Llywodraeth Leol.</p> <p>Mae'r Strategaeth Ariannu yn cymryd ymrwymadau'r Gronfa i ystyriaeth.</p> <p>Mae'r Strategaethau yn cael ei cymeradwyo a'i adolygu gan y Pwyllgor Pensiynau.</p> <p>Mae'r Gronfa yn defnyddio ymgynghorydd buddsoddi allanol sy'n rhoi arweiniad arbenigol i'r Panel Buddsoddi a'r Pwyllgor Pensiynau ynghylch y penderfyniadau buddsoddi.</p> <p>Mae Aelodau a Swyddogion yn cael eu hannog i herio'r arweiniad a dderbynir.</p> <p>Mae Aelodau a Swyddogion yn derbyn hyfforddiant perthnasol ac amserol.</p>	3	1	3	Pennaeth Cyllid Rheolwr Buddsoddi	
2.2	Asedau'r Gronfa yn annigonol i gwrdd ag ymrwymadau tymor hir. Strategaeth fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn yn methu cyflawni y dychweliadau gofynnol.	5	3	15	<p>Mae'r prisiant bob tair blynedd yn darparu arwyddion cyfnodol o'r twf mewn asedau yn erbyn ymrwymadau. Mae cyfraddau cyfraniad cyflogwr yn cael eu gosod yn ddarbodus mewn ymateb i'r angen.</p> <p>Dangosodd prisiant 2022 bod darpariaeth ariannu o 120% yng Nghronfa Gwynedd. Er hynny, mae'r Gronfa yn parhau i</p>	4	1	4	Rheolwr Buddsoddi	

					<p>ddefnyddio rhagdybiaethau darbodus ar gyfer y prisiad.</p> <p>Mae asedau'r Gronfa wedi eu buddsoddi ar draws ystod eang o wahanol fathau o asedau a chwmnïau rheoli buddsoddiadau er mwyn lleihau effaith colledion posib mewn marchnadoedd a rheolwyr asedau unigol.</p> <p>Yn sgil Prisiad 2022, mae'r Pwyllgor wedi ail-ddyrannu asedau i fathau o asedau risg is.</p> <p>Mae meincnodau penodol addas yn cael eu gosod.</p> <p>Mae asedau'r Gronfa yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r broses rheoli perfformiad y Gronfa.</p> <p>Mae rheolwyr buddsoddi y Gronfa yn cael eu gwirio yn drylwyr cyn eu penodi ac adolygir perfformiad yn rheolaidd yn erbyn y meincnod ac amcanion perfformiad y Panel Buddsoddi.</p> <p>Mae'r Gronfa/ PPC yn newid rheolwyr buddsoddi sy'n tanberfformio.</p>					
2.3	<p>Mae'r gronfa yn agored i risgiau diangen a chostau y gellir eu hosgoi oherwydd trefniadau buddsoddi strwythuro'n wael sy'n arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> Colled ariannol. 	5	3	15	<p>Nod y Gronfa yw sicrhau gwerth gorau ac i leihau amlygiad i risg fel a ganlyn:</p> <p>Mae asedau'r Gronfa yn cael eu buddsoddi mewn ystod o wahanol fathau o asedau er mwyn lleihau effaith y colledion mewn marchnadoedd unigol.</p> <p>Mae rheolwyr buddsoddi yn darparu anfonebau ar gyfer ffioedd a datgelu</p>	2	1	2	Rheolwr Buddsoddi	ARCHIFO- Risg de minimis oherwydd pwlio ac wedi ehangu y math o fuddsoddiadau sydd gennym.

					<p>ffioedd o fewn cronfeydd.</p> <p>Ystyrir gwasanaethau arbenigol megis trawsnewidiadau neu drosglwyddiadau arian cyfred yn lle y bo'n briodol er mwyn lleihau costau.</p> <p>Mae trefniadau ceidwad yn cael eu hadolygu a'u hail-dendro fel y bo'n briodol.</p>						
2.4	Cwmp rheolwr cronfa neu esgeulustod, twyll neu ddiffyg bwriadol a gyflawnwyd gan reolwr cronfa gan arwain at golled ariannol.	4	3	12	<p>Cyflawnir diwydrwydd dyladwy pryd bynnag y penodir rheolwr neu cronfa newydd, ac mae'r sefyllfa yn cael ei adolygu yn gyson drwy monitro chwarterol gan PPC, Panel Buddsoddi a ymgynghorwyr.</p> <p>Mae gofynion cyfreithiol ar gyfer rheolwyr y gronfa yn cael eu nodi yn eu cytundebau rheoli, a disgwylir iddynt cydymffurfio'n llawn â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR) a gofynion rheoleiddio eraill.</p> <p>Mae'r Gronfa yn defnyddio gwasanaeth ceidwad byd-eang i sicrhau bod buddsoddi asedau yn cael eu gwahanu o'r ddalfa o asedau.</p> <p>Gall ceidwad y Gronfa ymdrin i ddarparu gwasanaeth pontio os yw rheolwr yn y gronfa yn cael ei ddirwyn i ben.</p>	2	3	6	Rheolwr Buddsoddi	Mae sefyllfa Link Fund Solutions (Gweithredwr PPC) wedi bod yn ansicr oherwydd eu rôl rheolaethol gyda methiant cronfa ecwiti Woodford, ond mae'r Gronfa a PPC yn monitro'r sefyllfa yn barhaus ac yn trafod y camau priodol fel bo'r angen gyda'r partneriaid eraill.	
2.5	<p>Risg y Farchnad - Cwmp yn y farchnad yn arwain at fethiant i leihau'r diffyg, sy'n golygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Colled ariannol. • Cynnydd mewn costau cyfraniad y cyflogwr. 	5	4	15	<p>Mae asedau'r Gronfa yn cael ei fuddsoddi ar draws ystod eang o ddosbarthiadau ased i liniaru effaith perfformiad gwael mewn segment marchnad unigol.</p> <p>Yn sgil Prisiad 2022, defnyddir categorïau ychwanegol o asedau risg is.</p>	4	2	8	Rheolwr Buddsoddi		

					<p>Mae trefniadau perfformiad buddsoddi a monitro yn bodoli sy'n darparu swyddogion buddsoddi gyda'r hyblygrwydd i ail-gydbwysu'r portffolio mewn modd amserol petai'r angen yn codi.</p> <p>Mae natur hir dymor yr ymrwymadau'n lliniaru'r risg yn sylweddol.</p>						
2.6	Risg hylifedd - dim digon o arian i gwrdd â ymrwymadau wrth iddynt ddod yn ddyledus	4	3	12	<p>Mae'r rheolwyr yn paratoi rhagolygon llif arian i ddeall a rheoli amseriad llif arian y Gronfa.</p> <p>Mae adroddiad Modelu Llif Arian 2023 wedi adnabod y bydd y Gronfa gyda llif arian positif tan o leiaf 2029.</p>	3	1	3	Rheolwr Buddsoddi		
2.7	Risg cyfradd llog - Yn deillio o'r risg y bydd gwerth teg neu lif arian parod offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio oherwydd newidiadau yng nghyfraddau llog y farchnad	4	3	12	<p>Mae risg cyfradd llog y Gronfa yn cael ei fonitro fel mater o drefn yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, gan gynnwys monitro'r amlygiad i gyfraddau llog ac asesu cyfraddau llog gwirioneddol yn erbyn y meincnodau perthnasol.</p>	4	2	8	Rheolwr Buddsoddi		
2.8	Risg arian cyfred - bydd gwerth teg llif arian parod offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio oherwydd newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid tramor.	4	3	12	<p>Sefydlu ac adolygu dyraniad asedau strategol (o fewn rhanbarthau byd-eang).</p> <p>Mae trefniant rhagfantoli wedi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiynau yn 2022 a fydd yn rheoli risg.</p>	4	2	8	Rheolwr Buddsoddi		
2.9	Mae'r Gronfa yn methu ystyried newid hinsawdd a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) eraill:	5	3	15	<p>Mae gan y Gronfa bolisi Buddsoddi Cyfrifol yn weithredol a targed sero net o 2050 wedi ei osod.</p> <p>Polisi Buddsoddi Cyfrifol 2022 (gwyneddpensionfund.wales)</p> <p>Fel rhan o Bartneriaeth Pensiwn Cymru mae nifer o gamau gweithredol yn digwydd yn cynnwys: grŵp gweithredol buddsoddi</p>	4	2	8	Rheolwr Buddsoddi	<p>Buddsoddi yng nghronfa Ecwiti Cynaliadwy PPC</p> <p>Cynhyrchu adroddiad TFCD</p>	2023

					<p>cyfrifol, darparwr ymgysylltu a pleidleisio, PPC yn lofnodwr Cod Stiwardiaeth DU.</p> <p>Bydd y Panel Buddsoddi hefyd yn ymgysylltu a herio rheolwyr yn gyson ar sut maent yn ystyried y risg o newid yn yr hinsawdd a ffactorau ESG.</p> <p>Mae gan y Gronfa nod i fuddsoddi mewn buddsoddiadau sydd yn gwneud gwahaniaeth yn lleol ac yn y byd ehangach.</p>					
2.10	Tâl a phrisiau chwyddiant yn sylweddol fwy na'r disgwyl sy'n arwain at gynnydd mewn ymrwymadau sy'n fwy na'r amcangyfrif yn y prisiad.	3	3	9	<p>Mae ffocws y broses prisiant actiwariad ar enillion gwirioneddol asedau, net o brisiau a thâl yn cynyddu.</p> <p>Mae ehangder buddsoddiadau'r Gronfa yn helpu i liniaru'r risg hwn.</p>	2	3	6	Rheolwr Buddsoddi	
2.11	Cynnydd yn nifer o ymddeoliadau cynnar oherwydd toriadau gwasanaeth cyhoeddus a / neu iechyd gwael sy'n arwain at ymrwymadau pensiwn yn cynyddu.	3	4	12	<p>Mae'r Gronfa wedi dygymod gydag effaith nifer o flynyddoedd o lymder ac mae trefniadau mewn lle i ddelio gyda'r toriadau costau byw.</p> <p>Mae cyflogwyr yn talu cost cyfalaf ychwanegol ar gyfer ymddeoliadau cynnar sydd ddim yn ymwneud ac ymddeoliadau salwch yn dilyn pob penderfyniad unigol.</p> <p>Mae ymddeoliadau salwch y Cyflogwyr yn cael ei fonitro, ac mae'n ofynnol i gyflogwyr bach i gymryd yr yswiriant ymddeoliad salwch a ddarperir gan y Gronfa.</p>	2	3	6	Rheolwr Buddsoddi	
2.12	<p>Mae'r disgwyliad oes gyfartalog o bensiynwyr yn fwy nag a dybiwyd yn dybiaethau actiwariad.</p> <p>Mae cynnydd mewn ymrwymadau yn fwy na'r amcangyfrif prisiant blaenorol.</p>	3	3	9	<p>Mae rhagdybiaethau disgwyliad oes yn cael eu hadolygu ym mhob prisiant. Mae'r disgwyliad oes wedi ei lefelu allan yn data Prisiad 2022.</p> <p>Mae'r Gronfa yn defnyddio tybiaethau pwrpasol ar sail y disgwyliad oes ar draws ardal Cronfa Bensiwn Gwynedd.</p>	3	2	6	Rheolwr Buddsoddi	

					Mae tybiaethau marwolaeth yn cynnwys rhywfaint o lwfans ar gyfer cynnydd mewn disgwyliad oes yn y dyfodol.						
2.13	<p>Nid yw cyfraniadau cyflogwyr y cynllun i'r Gronfa yn cael eu derbyn neu eu prosesu neu eu cofnodi yn gyflawn ac yn gywir.</p> <p>Gellir achosi sefyllfa llif arian negyddol, oedi mewn cynhyrchu adroddiadau IAS19/ FRS102 a cau'r cyfrifon.</p>	4	3	12	<p>Ceir amserlen statudol ar gyfer derbyn cyfraniadau.</p> <p>Mae'r tîm yn cyfathrebu'n rheolaidd â chyflogwyr y cynllun i sicrhau bod cyfraniadau yn cael eu gwneud mewn modd amserol ac yn cael eu cofnodi'n gywir.</p> <p>Mae manylion unrhyw gyfraniadau sydd heb eu talu neu eu talu yn hwyr yn cael eu cofnodi ac mae camau priodol yn cael eu cymryd er mwyn adennill taliadau.</p>	2	2	4	Rheolwr Buddsoddi		
2.14	<p>Mae cyflogwr yn peidio â bodoli heb gyllid digonol ar gael i ddatrys unrhyw ddyledion, neu'n gwrthod talu gwerth rhoi'r gorau.</p> <p>Cyflogwyr sy'n gadael yn peidio cwrdd â'i ymrwymadau sy'n arwain at gynnydd mewn costau ar draws y cyflogwyr sy'n weddill y Cynllun.</p> <p>Dynodwyd cyflogwyr heb unrhyw Gytundebau Derbyn, ac mae cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu hyn.</p>	3	3	9	<p>Mae'r risg yn cael ei leddfu gan:</p> <p>Gwirio cyflogwyr arfaethedig cyn derbyn fel cyflogwr a sicrhau eu bod yn deall eu ymrwymadau.</p> <p>Mae ceisiadau am fynediad i'r Gronfa yn cael eu hystyried yn ofalus ac mae bond neu warant yn cael ei roi mewn lle os oes angen.</p> <p>Bydd ymrwymadau rhagorol yn cael eu hasesu ac adennill oddi wrth unrhyw gyrff olynol neu ledaenu ymhlith cyflogwyr sy'n weddill.</p> <p>Mae'r prisiant actiwariad yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng cyfnod adennill gyda risg o dynnu'n ôl.</p>	2	3	6	<p>Pennaeth Cyllid</p> <p>Rheolwr Pensiynau</p>		

					Os oes angen, bydd camau cyfreithiol priodol yn cael eu cymryd.						
2.15	<p>Busai nifer sylweddol o aelodau'r CPLIL yn trosglwyddo eu potiau pensiwn i ddarparwyr Pensiynau eraill er mwyn cael cyfalaf o dan ddeddfwriaeth "Rhyddid a Dewis" y Llywodraeth yn arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llif arian sylweddol o'r Gronfa. • Gostyngiad mewn asedau sy'n fwy na gostyngiad yn ymrwymadau'r Gronfa. 	4	3	12	<p>Mae'r risg yn cael ei leddfu gan: Cyfathrebu effeithiol o'r manteision o aros yn y CPLIL.</p> <p>Dylid cyfrifiadau actiwariaid sicrhau nid yw gwerth trosglwyddo yn fwy na'r lleihad yn atebolrwydd.</p> <p>Gofyniad i ofyn am Gyngor ariannol os yw'r trosglwyddiad yn fwy na £ 30,000.</p>	1	1	1	<p>Rheolwr Pensiynau</p> <p>Rheolwr Buddsoddi</p>	ARCHIFO- Tebygolrwydd o hyn yn ddigwydd yn isel iawn erbyn hyn	
3. Rôl Ceidwad											
3.1	<p>Methiant ceidwad yn arwain at golledion sy'n golygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Methiant i leihau'r diffyg. • Colled ariannol. 	5	3	15	<p>Penodwyd Ceidwad hynod ddibynadwy gydag achrediad uchel.</p> <p>Mae asedau'r Gronfa yn cael eu diogelu mewn achos o ansolfedd y ceidwad.</p> <p>Mae'n rhaid i'r ceidwad gadw at reoliadau ariannol FCA a TPR.</p>	2	2	4	Rheolwr Buddsoddi		
4. Pwll Buddsoddi Cymru											
4.1	Nid oes gan Gronfa Bensiwn Gwynedd adnoddau digonol ar gael i gydweithio gydag a darparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r bartneriaeth.	4	3	12	Mae lefelau staffio yn cael ei monitro i sicrhau bod gofynion y bartneriaeth yn cael ei gwrdd.	1	1	1	Pennaeth Cyllid	ARCHIFO - Mae'r Bartneriaeth wedi ei sefydlu bellach ac mae staff y Gronfa yn gallu cwrdd a gofynion y Bartneriaeth yn amserol.	
5. Cyfathrebu											
5.1	<p>Cyfathrebu ac ymgysylltu annigonol a Rhandaliadau'r Gronfa Bensiwn.</p> <p>Anallu i bennu polisi, gwneud penderfyniadau effeithiol a / neu ddarparu'r gwasanaeth.</p>	3	3	9	<p>Mae Polisi Cyfathrebu yn ei le.</p> <p>Mae gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gynhwysfawr ac yn cael ei gadw'n gyfredol.</p> <p>Mae perfformiad y Gronfa yn cael ei</p>	3	2	6	Rheolwr Pensiynau	<p>Mae angen adolygu gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd</p> <p>Bydd y system Hunanwasanaeth</p>	<p>2023</p> <p>2023/24</p>

	Risg i enw da'r Gronfa.				<p>hadrodd i'r Pwyllgor Buddsoddi a Phensiwn y Gronfa yn rheolaidd.</p> <p>Cynhelir cyfarfodydd o bryd i'w gilydd gyda chyflogwyr y Gronfa.</p> <p>Mae Datganiadau Buddion Blynyddol a chylchlythyrau yn cael eu hanfon yn flynyddol i aelodau actif a gohiriedig y Gronfa.</p> <p>Mae'r rhestr gyswllt ar gyfer cyflogwyr yn cael ei diweddarau'n rheolaidd.</p> <p>Mae Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei gynnal ar gyfer cyflogwyr ac Undebau Llafur.</p> <p>Mae'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn cael eu cyhoeddi ar wefan Gronfa Bensiwn Gwynedd.</p> <p>Mae gwefan Hunanwasanaeth Aelodau 'Fy Mhensiwn Ar-lein' ar gael i aelodau i gyfrifo buddion eu hunain.</p>					Aelodau 'Fy Mhensiwn Ar-lein' yn cael ei uwchraddio yn 2023/24 i wella'r ymgysylltiad gyda aelodau	
6. Gwarchod data											
6.1	<p>Efallai na fydd y systemau a data'r Gronfa Bensiwn yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn briodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Colli data sensitif. • Risg o golli enw da. <p>Colled ariannol sy'n deillio o gamau cyfreithiol.</p>	3	2	6	<p>Mae'n ofyniad gorfodol i bob gweithiwr i ymgymryd â hyfforddiant Diogelu Data a glynu at bolisi diogelu data Gwynedd.</p> <p>Mae data cyfraniadau a chyflogau aelodau yn cael eu hanfon drwy'r porth diogel i-Connect yn syth i gofnodion yr aelodau.</p> <p>Ble mae'n bosib, defnyddir system e-bost Egress (system e-bost diogel) i anfon e-</p>	3	1	3	Rheolwr Pensiynau		

					<p>byst i gyflogwyr nad ydynt wedi'u rhestru ar restr y Sefydliad E-bost Diogel.</p> <p>Mae system cadw dogfennau yn ddiogel hefyd yn cael ei gweithredu gan ein actiwari ac ymgynghorwyr.</p>					
7. Gweinyddiaeth Pensiynau										
7.1	<p>Buddion pensiwn ddim yn cael eu talu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Risg o golled ariannol sy'n deillio o hawliadau iawndal. Difrod i enw da. 	4	2	8	<p>Mae'r system gyflogres wedi cael ei sefydlu i dalu pensiynwyr yn fisol.</p> <p>Mae cynllun adfer trychineb ar waith gyda Heywood a fydd yn adfer data o fewn 7 diwrnod mewn achos o fethiant systemau.</p>	4	1	4	Rheolwr Pensiynau	
7.2	<p>Methiant yn ddata'r aelod yn y cynllun a phrosesau cyfrifo buddion yn arwain at dwyll, llygredigaeth neu wall.</p> <ul style="list-style-type: none"> Taliadau heb awdurdod o dan Ddeddf Cyllid 2004. Risg o golled ariannol a niwed i enw da. 	3	2	6	<p>Dim ond gan ffynonellau awdurdodedig y derbynnir gwybodaeth a chyfarwyddiadau.</p> <p>Mae'n ofynnol i gyflogwyr adolygu a chadarnhau cofnodion aelodaeth yn flynyddol.</p> <p>Mae cyfrifiadau buddion cael eu gwirio gan uwch gydweithwyr.</p> <p>Mae'r holl drafodion yn cydymffurfio â rheoliadau ariannol Cyngor Gwynedd ac maent yn destun awdurdodiad annibynnol.</p> <p>Aelodau sy'n agosau at 75 yn cael eu nodi ar wahân yn fisol.</p>	3	1	3	Rheolwr Pensiynau	
7.3	<p>Diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth a methiant i weithredu deddfwriaeth a rheoliadau newydd, gan arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> Taliadau anghywir yn cael eu gwneud. Risg o golled ariannol a niwed i enw da. 	3	3	9	<p>Hyfforddiant CLIL (LGA)/ Allanol.</p> <p>Dull gwaith prosiect i weithredu'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth.</p> <p>Hyfforddiant mewnol ar gyfer yr holl staff. Adnoddau ychwanegol mewn lle i weithredu rhwymedi McCloud.</p>	2	2	4	Rheolwr Pensiynau	

7.4	<p>Buddion pensiwn yn parhau i gael ei dalu i bensiynwyr sydd wedi marw, gan arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> Risg o golled ariannol a niwed i enw da. 	2	4	8	<p>Cysylltir â bob pensiynwr yn flynyddol.</p> <p>Mae pensiynwyr yn cael eu hymgorffori yn y Fenter Twyll Cenedlaethol.</p> <p>Mae gwiriadau pellach yn cael eu cynnal gydag asiantaethau cyfeirio credyd fel sy'n briodol.</p> <p>Mae sgrinio marwolaethau misol yn cael ei wneud ac mae unrhyw ganlyniadau cadarnhaol yn cael eu stopio ar unwaith.</p> <p>Mae'r gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith yn weithredol.</p>	2	3	6	Rheolwr Pensiynau		
7.5	<p>Methiant yn y system.</p> <ul style="list-style-type: none"> Colli data sensitif. Niwed i enw da. <p>Colled ariannol sy'n deillio o gamau cyfreithiol.</p>	5	2	10	<p>Mae copi wrth gefn yn cael ei wneud o'r system yn ddyddiol.</p> <p>Mae cynllun adfer trychineb mewn lle ac yn cael ei brofi bob blwyddyn (Yn unol â pholisi Cyngor Gwynedd).</p>	5	1	5	Rheolwr Pensiynau		
7.6	<p>Methiant Hunan Wasanaeth Aelodau</p> <ul style="list-style-type: none"> Risg enw da. 	4	2	8	<p>Yn cael ei gynnal gan y darparwr meddalwedd Heywood.</p>	4	1	4	Rheolwr Pensiynau		
7.7	<p>Ymosodiad Seiber</p> <ul style="list-style-type: none"> Colli data sensitif. Systemau wedi'u difrodi neu eu dinistrio. Niwed i enw da. <p>Colled ariannol yn deillio o gamau cyfreithiol.</p>	5	3	15	<p>Polisiau priodol a wal dân effeithiol,</p> <p>Mae'r meddalwedd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd gyda'r nodweddion diogelwch diweddaraf</p> <p>Mae copi wrth gefn yn cael ei wneud o'r system yn ddyddiol.</p> <p>Mae angen sawl cyfrinair i gael mynediad i'r system</p>	5	2	10	Rheolwr Pensiynau		

7.8	<p>Cyflogwyr ddim yn cyflawni eu cyfrifoldebau e.e. ddim yn darparu data cywir ar gyfer y gweithwyr neu ddim yn darparu'r wybodaeth mewn modd amserol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Buddion anghywir yn cael eu cyfrifo <p>Oedi tra ein bod yn gofyn am y wybodaeth sydd ar goll.</p>	3	2	6	<p>Mae'r Strategaeth Gweinyddu yn nodi cyfrifoldebau ac amserlenni'r dyllir y cyflogwyr ddilyn.</p> <p>System i-Connect mewn lle i gasglu'r data yn fisol.</p> <p>Cysylltir â'r cyflogwyr am wybodaeth os yw'r adran Bensiynau yn amau bod gwybodaeth ar goll neu yn cynnwys gwallau.</p> <p>Darperir cyngor a gwybodaeth i'r cyflogwyr.</p> <p>Gwiriadau blynyddol o ddata i dynnu sylw at unrhyw fylchau.</p> <p>Cyfarfodydd ar gyfer y cyflogwyr yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd.</p> <p>Canllawiau ar gael ar y wefan.</p>	3	1	3	Rheolwr Pensiynau		
7.9	<p>Methiant i gydymffurfio a rheoliadau datgelu e.e. y gofyniad i gyhoeddi gwybodaeth o fewn amserlen benodol ar ôl derbyn cais / digwyddiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> Cwynion / Dirwyon 	3	2	6	<p>System rheoli llif gwaith cadarn mewn grym.</p>	3	1	3	Rheolwr Pensiynau		
7.10	<p>Methiant i gyhoeddi Datganiadau Buddion Blynyddol i aelodau actif a gohiriedig erbyn 31 Awst:</p> <ul style="list-style-type: none"> Risg i enw da a chwynion. Dirwyon. 	2	4	8	<p>Ymagwedd rheoli prosiect</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae cyswllt rheolaidd gyda chyflogwyr i gael data. <p>Cyflwynir datganiadau ar-lein ar y wefan hunanwasanaeth.</p> <p>Rhyngwyneb misol i leihau llwyth gwaith ar ddiwedd y flwyddyn gyda'r prif gyflogwyr (i-Connect)</p>	2	1	2	Rheolwr Pensiynau		

8. Prosesau Mewnol											
8.1	<p>Mae natur arbenigol y gwaith yn golygu nifer fach o swyddogion sydd gyda'r wybodaeth perthnasol ac mae effaith o ymadawiad staff allweddol yn arwyddocaol.</p> <p>Gallai'r risg o golli staff allweddol arwain at fethiant mewn prosesau mewnol a darparu gwasanaethau, gan achosi colled ariannol ac a bosib niwed i enw da.</p>	4	3	12	<p>Mae swyddogion allweddol yn cyfleu gwybodaeth arbenigol i gydweithwyr ar sail swyddogaeth neu bwnc trwy fentora.</p> <p>Mae anghenion hyfforddi wedi'u eu nodi mewn swydd disgrifiad a'i adolygu bob blwyddyn gydag aelodau'r tîm trwy'r broses arfarnu.</p> <p>Cymwysterau perthnasol penodol ar gyfer staff gweinyddol a buddsoddi.</p> <p>Mae canllawiau mewnol 'Sut i..' yn cael eu datblygu ar yr holl brosesau mewnol.</p> <p>Ymgynghorwyr allanol a chynghorydd annibynnol ar gael ar gyfer cymorth tymor byr.</p>	4	2	8	Rheolwr Pensiynau a Rheolwr Buddsoddi		
9. Ffactorau Allanol na ellir eu Rheoli											
9.1	<p>Gweithrediadau arferol wedi eu tarfu gan ffactorau allanol na ellir eu rheoli</p> <p>Bygythiadau cyflenwi gwasanaeth oherwydd tân, bom, tywydd eithafol, namau trydanol, salwch, epidemig, pandemig ac ati.</p> <p>Cefnogaeth dyddiol annigonol, adfer ar ôl trychineb, a gorchudd TG i gefnogi systemau.</p>	5	5	25	<p>Gweithio o gartref yn digwydd gyda nifer o'r staff yn gweithio'n hybrid erbyn hyn.</p> <p>Cynllun Adfer ar ôl Trychineb ar gyfer system bensiynau.</p> <p>Parhad Busnes / Trychineb.</p> <p>Cynllun Adferiad i'r Awdurdod gyda waliau tân TG.</p>	3	3	9	Rheolwr Pensiynau	Datblygu dulliau newydd o weithio	

Colli gallu dros dro i ddarparu gwasanaeth i randdeiliaid										
---	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

10. RISGIAU NEWYDD

Pwlio Buddsoddiadau											
10.1	Gall trefniadau pwlio arwain at <ul style="list-style-type: none"> cynnydd mewn costau perfformiad is gwrthdaro o fewn y pwl diffyg alinio i strategaeth buddsoddi Cronfa Gwynedd 	4	3	12	<p>Mae swyddogion y Gronfa yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r Bartneriaeth er mwyn trafod materion a opsiynau buddsoddi.</p> <p>Mae gan y Gronfa gynrychiolaeth ar pob is-grwp a grwpiau gweithredol y Bartneriaeth.</p> <p>Mae Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau Gwynedd yn aelod o Gyd- bwyllgor Llywodraethu y Bartneriaeth.</p> <p>Mae gan y Bartneriaeth bolisiau a trefn llywodraethu cadarn a tryloyw.</p> <p>Mae cynnydd y Bartneriaeth a perfformiad y cronfeydd mae Cronfa Gwynedd wedi buddsoddi ynddynt yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r Panel Buddsoddi a Bwrdd Pensiwn.</p>	4	2	8	<p>Rheolwr Buddsoddi</p> <p>Pennaeth Cyllid</p> <p>Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau</p>		

Cyfrifon Terfynol ac Adroddiad Blynyddol											
10.2	Nid yw Cyfrifon Terfynol y Gronfa Bensiwn ac Adroddiad Blynyddol yn cael ei cynhyrchu yn unol a gofynion statudol, safonau cyfrifo neu amserlen archwilio.	4	3	12	<p>Mae swyddogion y Gronfa yn Gyfrifwyr Cymwysedig ac yn mynychu cyrsiau hyfforddiant CIPFA rheolaidd.</p>	4	1	4	Rheolwr Buddsoddi		

	<ul style="list-style-type: none"> Risg i enw da'r Gronfa Bensiwn 				<p>Mae amserlen yn cael ei osod er mwyn sicrhau bod dyddiadau allweddol yn cael ei cyrraedd wrth baratoi y cyfrifon.</p> <p>Cyfathrebu clir a cyson gyda Archwilio Cymru er mwyn gallu cyhoeddi y cyfrifon terfynol wedi'i archwilio cyn y dyddiad statudol o 1af o Rhagfyr.</p> <p>Mae gan y Gronfa systemau gadarn (efinancials, iConnect, Altair) sydd yn cofnodi trafodion y Gronfa yn gywir.</p> <p>Mae gan y Gronfa fynediad i ddatganiadau gan ein Rheolwyr Buddsoddi i gadarnhau trafodion a gwerth asedau'r Gronfa.</p>					
--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Esblygu a cyfleoedd newydd

10.3	Methu ag esblygu a chwilio am gyfleoedd newydd.	4	3	12	<p>Mae swyddogion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy fynychu cyfarfodydd PPC a chynadleddau CPLIL.</p> <p>Mae'r ymgynghorwyr yn diweddarau'r Panel Buddsoddi a swyddogion am unrhyw gyfleoedd.</p>	4	1	4	Rheolwr Buddsoddi		
------	---	---	---	----	--	---	---	---	-------------------	--	--

Adnoddau

10.4	Dim digon o adnoddau i ddelio â phwysau newydd a newidiadau megis McCloud, Dashboards ac ati.	4	3	12	<p>Mae adnoddau'r Gronfa yn cael ei adolygu'n flynyddol fel bo'r angen gan yn Pwylgor.</p> <p>Pecyn recriwtio yn cynnig hyblygrwydd.</p>	4	2	8	Rheolwr Pensiynau		
------	---	---	---	----	--	---	---	---	-------------------	--	--